



Coleg Nyrso Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales

# Cynnydd a Her wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol 2023

Sut y mae GIG Cymru wedi  
gweithredu Deddf Lefelau Staff  
Nyrso (Cymru) 2016

Tachwedd 2023



**SAFE STAFFING SAVES LIVES**

**MAE STAFFIO DIOGEL YN ACHUB BYWYDAU**

## Cynnwys

<b>Geirfa</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>Argymhellion i wella diogelwch cleifion</b>	<b>5</b>
<b>Methodoleg</b>	<b>6</b>
<b>Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?</b>	<b>7</b>
<b>Pam mae hyn mor bwysig?</b>	<b>7</b>

### Adran 1: Themâu Cenedlaethol

Mae adran 25A wedi gwella diogelwch cleifion, ond mae diffyg canllawiau yn amharu ar ei heffeithiolrwydd	9
Mae Adran 25B yn arf pwerus ac wedi gwneud plant ac oedolion mewn ysbytai yn fwy diogel	10
Gwell dangosyddion diogelwch cleifion ar wardiau sy'n dod o dan Adran 25B	10
Mae'r dyfodol yn ansicr ar gyfer gwaith presennol Llywodraeth Cymru ar ymestyn Adran 25B	11
Mae rolau cymorth nyrsio yn rhan hanfodol o'r tîm ond maent yn risg i gleifion os cânt eu defnyddio yn lle nyrsys cofrestredig	12
Gall buddsoddi mewn systemau TG wneud cydymffurfio a chraffu yn haws	12
Mae'r gweithlu nyrsio yn wynebu heriau difrifol yng Nghymru	13
Arolwg o wybodaeth gyhoeddus am wardiau Adran 25B	14

### Adran 2: Adroddiadau Byrddau Iechyd

<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</b>	<b>15</b>
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</b>	<b>18</b>
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</b>	<b>21</b>
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</b>	<b>23</b>
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</b>	<b>25</b>
<b>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</b>	<b>28</b>
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe</b>	<b>30</b>
Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol	32

## Geirfa

**nyrs neu nyrs gofrestredig:** mae'r ddau yn cyfeirio'n gyfan gwbl at rywun sydd â chofrestriad byw ar Is-rannau 1 neu 2 o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ers 2004, mae'r holl addysg nyrsio cyn-cofrestru wedi'i darparu ar lefel israddedig yng Nghymru.

**gweithiwr cymorth gofal iechyd (HCSW):** term ambarél yn cwmpasu amrywiaeth o rolau cymorth iechyd a gofal. Mae HCSWs yn darparu gofal nyrsio a ddirprwyir gan a/neu o dan oruchwyliaeth, nyrs gofrestredig.

**staff nyrsio:** yn cyfeirio at nyrsys cofrestredig a HCSWs. Mae'n derm mwy cynhwysol na “nyrs”, “nyrs gofrestredig”, neu “weithiwr cymorth gofal iechyd”, gan fod gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n darparu gofal nyrsio yn rhan o'r teulu nyrsio.

**ward adran 25B:** ward y mae Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn gymwys iddi.

**lefel staff nyrsio:** yng nghyd-destun *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, mae lefel y staff nyrsio yn ffigur a gyfrifir bob chwe mis ar gyfer wardiau sy'n dod o dan Adran 25B o'r *Ddeddf* honno. Y lefel staff nyrsio yw'r sefydliad gofynnol a'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig sy'n nodi faint o nyrsys a HCSWs sydd eu hangen ar ward benodol.

**sefydliad/sefydliad gofynnol:** Cyfanswm y staff i ddarparu digon o adnoddau i drefnu amserlen a fydd yn galluogi nyrsys i ddarparu gofal i gleifion sy'n bodloni'r holl ofynion rhesymol yn y sefyllfa berthnasol.

**rhestr ddyletswyddau arfaethedig:** nifer y nyrsys sydd wedi'u trefnu i weithio ar sifft.

**aciwtedd cleifion:** mesur o ddwyster anghenion nyrsio'r claf.

**addysg ôl-gofrestru:** Unrhyw addysg nyrsio y mae nyrs gofrestredig yn ei chwblhau ar ôl cofrestriad cychwynnol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**diogel ac effeithiol:** lleihau risgiau i gleifion a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer y canlyniad gorau posibl. Mae sicrhau bod y nifer cywir o staff nyrsio gyda'r cymysgedd cywir o sgiliau o gwmpas y claf yn hanfodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

**Agenda ar gyfer Newid (AfC):** system gyflog a gwerthuso swyddi a ddefnyddir yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ledled y DU i bennu'r graddfeydd cyflog a dosbarthiad swyddi ar gyfer holl rolau'r GIG ac eithrio meddygol a deintyddol. Pennir telerau ac amodau gwirioneddol AfC a graddfeydd cyflog gan lywodraethau datganoledig pob gwlad gyfansoddol yn y DU.

**band X (e.e. “nyrs band 5”):** yn cyfeirio at fand cyflog gweithiwr GIG yn y system Agenda ar gyfer Newid. Mae nyrsys cofrestredig yn dechrau eu gyrfaedd ym mand 5.

## Crynodeb Gweithredol

Mewn saith mlynedd, mae *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* wedi:

**Cynyddu nifer y nyrsys ar wardiau, gan wneud cleifion yn fwy diogel.** Mae Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG wedi gwella diogelwch cleifion drwy fuddsoddi yn y broses o fynd i'r afael â lefelau staff nyrsio isel o ganlyniad uniongyrchol i *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

**Gwneud diogelwch cleifion yn gyfrifoldeb ar bawb.** Mae'r gyfraith yn rhoi rôl ffurfiol i farn broffesiynol nyrsys wrth gyfrifo faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd sydd eu hangen ar rai wardiau. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd i gynnal staffio ar y lefel honno. Gyda diogelwch cleifion bellach yn gyfrifoldeb corfforaethol, mae uwch reolwyr y GIG yn deall yn well sut mae barn feirniadol a dadansoddiadau nyrsys yn cadw cleifion yn ddiogel.

**Annog Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru i anelu at well gofal i gleifion.** Mae'r gyfraith wedi tynnu sylw at recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithredu ar gadw nyrsys, ar ôl cyhoeddi cynllun cadw nyrsys cenedlaethol ym mis Medi 2023. Rhaid iddi nawr ysgogi'r broses o weithredu'r cynllun yn llawn.

**Helpu i sicrhau bod niwed y mae modd ei osgoi yn cael ei leihau.** Gall digwyddiadau cleifion a chwynion am ofal nyrsio ddigwydd. Fodd bynnag pan fydd hyn yn digwydd ar wardiau Adran 25B, anaml y caiff methiant i gynnal lefelau staff nyrsio ei ystyried yn ffactor cyfrannol.

**Gwell data rhwng sifftiau ar staff nyrsio.** Mae byrddau iechyd wedi cytuno i roi system TG genedlaethol ar waith ar gyfer dyrannu sifftiau, sef SafeCare, erbyn mis Tachwedd 2023. Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen i sicrhau cydymffurfiaeth â *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

**Ysgogi gwariant i gadw cleifion yn ddiogel, hyd yn oed mewn hinsawdd ariannol anodd.** Mae cyrff cyhoeddus am ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Mae eu dyletswyddau o dan *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn ei gwneud hi'n glir pam fo gwariant ar lefelau staff nyrsio yn fuddsoddiad mewn diogelwch cleifion.

## Argymhellion i wella diogelwch cleifion

### Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

**Datblygu** canllawiau statudol a gweithredol ar gyfer Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

**Cyfleu** canlyniadau clir ar gyfer diffyg cydymffurfio ag Adrannau 25B a 25C, gan ddiweddarau'r canllawiau statudol os oes angen. Dylai Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru gyfeirio'n benodol at Adrannau 25B a 25C.

**Sicrhau** bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn cydymffurfiaeth â *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* mewn lleoliadau lle mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i reoleiddio ac arolygu.

**Amlinellu** amserlen ar gyfer ymestyn Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* i wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol a lleoliadau cymunedol ac adeiladu ar y dystiolaeth bresennol i ymestyn Adran 25B lleoliadau eraill.

**Datblygu** strategaeth genedlaethol i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gomisiynu addysg ôl-gofrestru ar gyfer nyrsys cofrestredig yng Nghymru, a gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i'w chyflwyno. Dim ond strategaeth genedlaethol all greu cyflenwad cynaliadwy o nyrsys uwch, arbenigol ac ymgynghorol a all ddiwallu anghenion y boblogaeth.

### Dylai byrddau iechyd wneud y canlynol:

**Buddsoddi** mewn gweithgareddau recriwtio a chadw nyrsys, gan ymrwymo'n llwyr i gyflawni cynllun cadw nyrsys AaGIC a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023.

**Gweithredu** SafeCare o fewn yr amserlen y cytunwyd arni a chyhoeddi data sifftiau o ddydd i ddydd yn eu papurau sicrwydd blynyddol *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

**Paratoi** ar gyfer ymestyn Adran 25B i iechyd meddwl a nyrsio cymunedol.

**Sicrhau** cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau wrth hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio ar bob ward y mae Adran 25B yn berthnasol iddi, gan gynnwys gwneud hynny mewn modd sy'n amlwg i bawb sy'n mynychu'r ward.

## Methodoleg

Yr adroddiad hwn yw trydydd adroddiad Coleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) Cymru sy'n archwilio gweithredu *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2019<sup>1</sup>, a'r ail yn 2022<sup>2</sup>. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar 2022-2023.

Nod yr adroddiad hwn yw:

- Cynnig trosolwg o gynnydd y broses weithredu *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn seiliedig ar asesiad pob bwrdd iechyd ei hun.
- Cydnabod ac annog arferion da.
- Dangos yr hyn y mae angen ei wneud i weithredu *Deddf Lefelau Staff nyrsio (Cymru) 2016* yn gyson ac yn effeithiol i ddiogelu gofal cleifion.

Er mwyn ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae RCN wedi:

- Ysgrifennu at bob bwrdd iechyd a Phrif Swyddog Nyrsio (CNO) Cymru i ofyn sut y maent yn dod yn eu blaenau o ran gweithredu *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.
- Gofyn i gynrychiolwyr RCN Cymru gwblhau archwiliad o wardiau Adran 25B i sicrhau bod gwybodaeth am nifer y staff nyrsio yn cael ei harddangos.
- Rhoi copi o'r adroddiad hwn i fyrddau iechyd ymlaen llaw gyda chyfle iddynt roi mewnbwn ychwanegol.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn fformat y ddau adroddiad blaenorol gan fod ganddo adran fanwl ar bob bwrdd iechyd ac adran yn amlinellu'r themâu cenedlaethol a'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth. Dewisodd adroddiad gwreiddiol 2019 beidio â chynnwys ei gwmpas ddarpariaeth arbenigol, megis Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n darparu Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre, nac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae gwasanaethau nyrsio yn rhan hanfodol o'r holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gellid gwneud achos rhagorol dros archwilio'r Ddeddf mewn gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd cyhoeddus, cartrefi gofal, a gofal cymdeithasol a gomisiynir. Ar gyfer argraffiad nesaf *Cynnydd a Her*, y bwriedir ei gyhoeddi yn 2025, bydd cwmpas yr adroddiad yn cael ei ystyried.

---

<sup>1</sup> Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru. (2019). *Cynnydd a Her: Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*. <https://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/009-905>

<sup>2</sup> Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru. (2022). *Cynnydd a Her wrth Ddarparu Gofal Diogel ac Effeithiol 2022: Sut Mae y GIG yng Nghymru wedi Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*. <https://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/progress-and-challenge-in-delivering-safe-and-effective-care-2022-uk-pub-010-279>

## Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Mae gan *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* bum adran sy'n cyfuno i wneud gofal nyrsio yn fwy diogel yng Nghymru.

- Adran 25A** yn berthnasol ym mhob man y mae GIG Cymru yn darparu gwasanaethau nyrsio, neu'n comisiynu rhywun arall i wneud hynny. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd "roi sylw i bwysigrwydd darparu digon o nyrsys i ganiatáu amser i nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif".
- Adran 25B** yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd gyfrifo a chymryd "camau rhesymol" i gynnal y lefel staff nyrsio ar bob lle y bo'n berthnasol. Ar y dechrau, roedd yn berthnasol mewn wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion. Cafodd ei ymestyn i wardiau plant yn 2021. Rhaid hysbysu cleifion hefyd o lefel y staff nyrsio ar bob ward Adran 25B.
- Adran 25C** yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull penodol i gyfrifo'r lefel staff nyrsio ar unrhyw ward dan Adran 25B.
- Adran 25D** yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau er mwyn helpu sefydliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Adrannau 25B a 25C. Mae'n rhaid i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddilyn y canllawiau hyn.
- Adran 25E** yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd adrodd eu cydymffurfiad o ran cynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer wardiau sy'n ddarostyngedig i Adran 25B, yr effaith y mae'r Bwrdd neu'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y mae peidio â chynnal lefelau staff nyrsio wedi'i chael ar y gofal a ddarperir i gleifion gan nyrsys, ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio.

## Pam mae hyn mor bwysig?

Mae *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn diogelu cleifion.

Datgelodd Adroddiad Francis (2013), adolygiad Keogh (2013), adolygiad Berwick (2013) ac Adroddiad Andrews (2014) drasiediau cleifion a ddeilliodd o fethiannau mynych yn y GIG i flaenoriaethu diogelwch cleifion ac ansawdd gofal yn ddigonol gan ddarparu digon o nyrsys.

Adroddiad Francis (2013) oedd y pumed adroddiad swyddogol i'r drasiedi a ddigwyddodd yn Ysbyty Stafford, ysbyty cyffredinol dosbarth bach yn Swydd Stafford. Awgrymwyd bod rhwng 400 a 1,200 o gleifion wedi marw o ganlyniad i ofal gwael rhwng Ionawr 2005 a Mawrth 2009.<sup>3</sup> Un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad oedd bod 'oedi annerbyniol wrth fynd i'r afael â'r mater o brinder staff nyrsio medrus'.<sup>4</sup> Cyfeirir at yr holl adroddiadau hyn yn nodiadau esboniadol y *Ddeddf*.<sup>5</sup>

<sup>3</sup> Campbell, D. (2013, Chwefror 6). Mid Staffs Hospital Scandal: The Essential Guide. *The Guardian*. <https://www.theguardian.com/society/2013/feb/06/mid-staffs-hospital-scandal-guide>

<sup>4</sup> Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry. (2013). Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry: Executive summary (HC 947). The Stationery Office. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/279124/0947.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/279124/0947.pdf)

<sup>5</sup> Nodiadau esboniadol i *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, paragraffau 14-22. <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/notes>



Mae ymchwil wedi dangos y gall lefelau isel o staff nyrsio gynyddu marwolaethau cleifion hyd at 26% o gymharu â wardiau sydd â gwell lefelau staff. Mewn cyferbyniad, mae lefelau diogel ac effeithiol o staff nyrsio yn lleihau aildderbyniadau, cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gwallau meddyginiaeth, cwympiadau, a briwiau pwyso. Maent yn golygu gwell hydradiad, gwell maeth, a gwell cyfathrebu â chleifion.<sup>6</sup>

Yn 2021, canfu Aiken a'i chydweithwyr<sup>7</sup> bod cleifion mewn ysbytai lle roedd gan nyrsys gymhareb uchel o gleifion o gymharu ag ysbytai lle roedd gan nyrsys gymhareb is o gleifion yn fwy tebygol o ddioddef amodau niweidiol gan gynnwys siawns 41% yn uwch o farw, siawns 20% yn uwch o gael eu haillderbyn a siawns 41% o aros yn hwy.

Yn ogystal â sicrhau bod digon o nyrsys, mae'r gymysgedd sgiliau iawn ymhlith staff nyrsio hefyd yn bwysig. Mae pob cynnydd o 10% yn nifer y nyrsys â gradd mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% yn nifer y marwolaethau ymysg cleifion.<sup>8</sup> Mae angen cymysgedd o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd i sicrhau tîm syn gweithio yn effeithiol.

Ymgyrchodd aelodau'r RCN Cymru dros *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* oherwydd y dystiolaeth aruthrol sy'n cefnogi'r cysylltiad rhwng lefelau staff nyrsio a diogelwch cleifion, ac mae'n parhau i hyrwyddo'r dull hwn.

---

<sup>6</sup> Rafferty, A.M et al. (2007). Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: cross-sectional analysis survey data and discharge records. *International Journal of Nursing Studies*. 44(2), 175-82. <https://doi.org/10.1016/j.ijnurstu.2006.08.003>

<sup>7</sup> Aiken, L.H. et al. (2021). Hospital nurse staffing and patient outcomes in Chile: a multilevel cross-sectional study. *The Lancet Global Health*. 9(8), 1145-1153. [https://doi.org/10.1016/s2214-109x\(21\)00209-6](https://doi.org/10.1016/s2214-109x(21)00209-6)

<sup>8</sup> Rafferty, A.M. et al. (2014). Nurse staffing and education and hospital mortality in nine European countries: a retrospective observational study. *The Lancet*, 383(9931), 1824-1830. [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(13\)62631-8](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(13)62631-8)



# Adran 1: Themâu Cenedlaethol

## Mae adran 25A wedi gwella diogelwch cleifion, ond mae diffyg canllawiau yn amharu ar ei heffeithiolrwydd

Mae adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i “**roi sylw i bwysigrwydd darparu digon o nyrsys i ganiatáu amser i nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif**”. Mae’n berthnasol i’r *holl* wasanaethau nyrsio a ddarperir gan y bwrdd iechyd neu’r ymddiriedolaeth – gan gynnwys y rheini a gomisiynir gan ddarparwyr eraill.

Mae’r ddyletswydd gyffredinol hon wedi arwain at bethau da.

- **Mae cleifion wedi cael eu diogelu.** Mae uwch reolwyr GIG Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru, ac Aelodau’r Senedd fel ei gilydd yn cydnabod gwerth nyrsio, ei ddylanwad ar farwolaethau cleifion, a bod angen buddsoddi yn y proffesiwn.
- **Ymgynghorir â nyrsys ynghylch ddiogelwch cleifion.** Mae gwerth barn broffesiynol nyrsys, a pham mor bwysig ydyw o ran cynnal lefelau staff nyrsio sy’n caniatáu gofal diogel ac effeithiol, yn cael ei gydnabod yn ehangach. Mae uwch aelodau’r bwrdd iechyd yn deall yn gliriach rôl arwyddocaol rheolwr y ward o ran sicrhau’r gofal gorau i gleifion.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw ganllawiau ar sut y dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gydymffurfio ag Adran 25A.

Cyn i *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* gael ei phasio, galwodd RCN Cymru am ganllawiau statudol ar gyfer y Ddeddf gyfan. Penderfynodd Llywodraeth Cymru mai dim ond ar gyfer Adrannau 25B a 25C yr oedd angen canllawiau.

Prin yw’r dystiolaeth o gydymffurfio ag Adran 25A a phrin yw’r canlyniadau ar gyfer diffyg cydymffurfio. Wrth i’r gweithlu nyrsio barhau i wynebu heriau o ran recriwtio a chadw, mae uchelgeisiau Adran 25A heb eu cyflawni i raddau helaeth o hyd.

Un o’r ychydig fyrddau iechyd i adrodd ar ei gydymffurfiaeth ag Adran 25A yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro. Dengys papurau’r Bwrdd, ar ôl i lefelau staff nyrsio yn ei wardiau iechyd meddwl beidio â chydymffurfio ag Adran 25A yn 2019 a 2020, mai’r mater oedd ffocws trafodaeth y bwrdd. Yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2021-22, rhoddodd y bwrdd y dasg i staff o fynd i’r afael â bylchau mewn staff nyrsio a chyllid ar y wardiau hyn. Erbyn 2022, roedd y cyfarwyddwr gweithredol nyrsio yn gallu cymeradwyo y cydymffurfiwyd â’r lefelau staffio. Mae hon yn enghraifft gadarnhaol o’r ffordd y gwnaeth bodolaeth dyletswydd statudol i ddarparu gofal nyrsio diogel atgyfnerthu atebolrwydd corfforaethol a sicrhau bod camau’n cael eu cymryd i ddiogelu cleifion.

Bwrdd iechyd arall sy’n rhoi manylion am sut y mae’n cyflawni Adran 25A yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae’r bwrdd iechyd yn cyfeirio at drafodaethau parhaus ynghylch adlinio cyllidebau er mwyn sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn briodol i ddiwallu anghenion cleifion yn ei Hadrannau Achosion Brys a’i ‘Gwasanaethau Drws Ffrynt’.<sup>9</sup> Mae’r bwrdd hefyd wedi adolygu ei lefelau staffio gofal critigol yn gynhwysfawr i adlewyrchu Canllawiau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gofal Dwys (GPICS) y Gyfadran Meddygaeth Gofal Dwys.

Fodd bynnag, mae’n anodd dod o hyd i ragor o enghreifftiau o drafod a gweithredu corfforaethol ar adran 25A. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ychwaith am sut mae byrddau iechyd yn cymhwyso Adran 25A i wasanaethau y maent yn eu comisiynu gan ddarparwyr eraill, na sut – neu a ydynt – yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny’n cydymffurfio â hi.

<sup>9</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar Lefelau Staff Nyrsio*. <https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/item-6-1-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-report-2022-23-pdf/>

Mae nodiadau esboniadol<sup>10</sup> y Ddeddf yn nodi meysydd ymarferol lle gellid cymhwysu'r ddyletswydd hon, er enghraifft yn y broses gomisiynu ac wrth gynllunio'r gweithlu. Heb ganllawiau clir ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth, mae Adran 25A yn cael ei gweithredu'n wan, hyd yn oed yn y meysydd hyn. Mae RCN Cymru yn ailadrodd yr alwad i ddatblygu canllawiau statudol ar gyfer Adran 25A a'u rhoi ar waith.

Mae RCN Cymru yn deall o geisiadau rhyddid gwybodaeth diweddar y bydd adroddiadau blynyddol ar lefelau staff nyrsio i bob bwrdd iechyd ("adroddiadau sicrwydd blynyddol") yn y dyfodol yn cynnwys adran benodol ar Adran 25A. Mae hwn yn gam pwysig i sicrhau tryloywder a chraffu iach.

## **Mae Adran 25B yn arf pwerus ac wedi gwneud plant ac oedolion mewn ysbytai yn fwy diogel**

Mae Adran 25B yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd gyfrifo a chymryd "camau rhesymol" i gynnal y lefel staff nyrsio ar bob lle y bo'n berthnasol. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio.

Lle bo Adran 25B yn berthnasol, mae byrddau iechyd yn cyllidebu ar gyfer mwy o staff nyrsio. Yn 2021, dair blynedd ar ôl i Adran 25B ddod i rym, roedd 139.74 o nyrsys cofrestredig ychwanegol a 597 yn fwy o HCSWs (y ddau gyfwerth ag amser llawn WTE) yn cael ei gyllidebu gan fyrddau iechyd ar draws yr holl wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion<sup>11</sup>. Ar ôl i Lywodraeth Cymru ymestyn Adran 25B i wardiau pediatrig yn 2021, aeth byrddau iechyd ati i recriwtio nyrsys plant ychwanegol i sicrhau y gallent gydymffurfio. Mae plant mewn ysbytai yng Nghymru yn fwy diogel erbyn hyn oherwydd bod gan fyrddau iechyd fwy o nyrsys ar wardiau pediatrig.

Mae'r Ddeddf yn nodi rôl ffurfiol i wybodaeth, ddadansoddi a barn feirniadol nyrsys wrth gyfrifo faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd sydd eu hangen ar rai wardiau. Mae'n sefydlu ddyletswydd i fyrddau iechyd gynnal staffio ar y lefel honno. Gyda lefelau staff nyrsio yn cael eu llywio gan nyrsys eu hunain, a diogelwch cleifion bellach yn gyfrifoldeb corfforaethol, mae cleifion yn fwy diogel.

Mae effaith gadarnhaol arall wedi bod ar y ffordd y caiff "codiad" ei gyfrifo. Lwfans yw codiad er mwyn sicrhau nad yw wardiau'n cael eu hunain yn brin o staff oherwydd absenoldeb anochel ymhlith staff (boed wedi'i gynllunio ai peidio). Rhaid i wardiau sy'n dod o dan Adran 25B roi cyfrif am godiad mewn ffordd safonol gan ddefnyddio ffactor o 26.9% (y cytunwyd arno yn 2011 gan Gyfarwyddwyr Nyrsio Cymru fel y ffactor sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w ddefnyddio yng Nghymru). Mae angen rhoi gwybod am eithriadau i Brif Swyddog Nyrsio Cymru.

Wrth weithredu Adran 25B, mae Cymru wedi datblygu un o'r cronfeydd data mwyaf ar aciwtedd cleifion a gofynion staff nyrsio yn y DU ac yn rhyngwladol: Lefelau Gofal Cymru. Mae'r dystiolaeth hon o effaith uniongyrchol nyrsys ar ofal cleifion yn hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion.

## **Gwell dangosyddion diogelwch cleifion ar wardiau sy'n dod o dan Adran 25B**

Mae ymchwil wedi dangos bod rhai mathau o ddigwyddiadau o niwed i gleifion yn cyfateb i lefelau isel o staff nyrsio. Felly mae cyfradd y digwyddiadau hyn yn cael ei hystyried yn "ddangosydd ansawdd". Mae'r canllawiau statudol sy'n sail i'r ddeddfwriaeth yn nodi fel dangosyddion ansawdd bod cleifion yn datblygu briw pwyso, yn cael y feddyginiaeth anghywir ac, ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion, yn dioddef cwympiadau. Ar wardiau pediatrig, maent yn cynnwys anafiadau ymdreiddio/echdynnu. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu bod byrddau iechyd yn ystyried profiad cleifion.

Pan fydd achosion o'r fath yn digwydd ar wardiau Adran 25B, rhaid i fyrddau iechyd roi gwybod amdanynt a phenderfynu a oedd lefelau isel o staff nyrsio wedi chwarae rhan ynddynt.

---

<sup>10</sup> Nodiadau esboniadol i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, paragraffau 14-22. <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/notes>

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Crynodeb statudol o adroddiadau lefelau staff nyrsio 2018-2021*. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-crynodeb-statudol-o-adroddiadau-lefelau-staff-nyrsio-2018-2021.pdf>

Mae risg bod y wybodaeth a ddarperir gan fyrddau iechyd yn anghyflawn neu'n anghywir am amryw resymau. Mae cael mecanwaith ar lefel bwrdd iechyd a chenedlaethol ar gyfer sicrwydd ynghylch diogelwch cleifion ac ansawdd gofal yn bwysig. Dylai Llywodraeth Cymru a'r GIG ystyried cynnal ymchwil ychwanegol i ddiogelwch cleifion er mwyn darparu gwell data ac awgrymiadau ar gyfer dangosyddion ansawdd.

Fodd bynnag, o ddata a gyhoeddwyd gan fyrddau iechyd, ymddengys fod digwyddiadau lle roedd methiant i gynnal y lefel staff nyrsio wedi chwarae rôl yn brin. O'r 2,708 o achosion o'r fath y rhoddwyd gwybod amdanynt ar wardiau Adran 25B rhwng 2018 a 2023, cyfrannodd methiant i gynnal y lefel staff nyrsio at 101 o'r rhain yn unig, sef 3.7% o'r cyfanswm.

## Mae'r dyfodol yn ansicr ar gyfer gwaith presennol Llywodraeth Cymru ar ymestyn Adran 25B

Mae hawl Llywodraeth Cymru i ymestyn Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* i leoliadau newydd yn rhan o'r Ddeddf. Mae RCN Cymru wedi galw dro ar ôl tro ar Lywodraeth Cymru i arfer yr hawl hon a'i hymestyn i wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol, nyrsys ardal, ac ymwelwyr iechyd.

Ers ei sefydlu, mae Rhaglen Staffio Nyrsio Cymru Gyfan – sy'n rhan o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) – wedi bod yn datblygu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ymestyn Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio Cymru 2016* i wardiau nyrsio cymunedol ac iechyd meddwl cleifion mewnol.

Mae papurau cyfarfodydd cyhoeddus diweddar yn dangos bod byrddau iechyd yn rhagweld twf mewn nyrsio “dros y 3 blynedd nesaf yn gysylltiedig ag ... ymestyn *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* o fewn Iechyd Meddwl”.<sup>12</sup> Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i waith Rhaglen Staffio Nyrsio Cymru Gyfan ar ymestyn Adran 25B. Nid yw dyfodol y gwaith hwn yn glir.

Mae papurau diweddar y bwrdd hefyd yn datgelu bod y Prif Swyddog Nyrsio wedi cytuno ar Egwyddorion Staffio Nyrsio Interim ar gyfer nyrsio iechyd meddwl ac ymwelwyr iechyd mor bell yn ôl â 2021.<sup>13,14</sup> Ar adeg eu hysgrifennu yn 2023, nid yw'r egwyddorion interim hyn wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol. Serch hynny, mae papurau'n datgelu bod byrddau iechyd, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, eisoes yn cynnal asesiadau effaith ar fodloni'r egwyddorion hyn sydd heb eu cyhoeddi. Mae RCN Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r egwyddorion interim hyn yn ffurfiol gan eu bod, yn amlwg, yn werthfawr iawn wrth wella gofal.

Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn parhau i bwysu am amserlen ar gyfer yr estyniad ac i Lywodraeth Cymru gadarnhau ei bwriadau ar gyfer dyfodol *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

<sup>12</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2023). *Papurau'r Bwrdd – 24 Mai 2023*.

<https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/>

<sup>13</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Adroddiad Blynyddol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2022-23*.

<https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/item-6-1-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-report-2022-23-pdf/>

<sup>14</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2022). *Adroddiad Blynyddol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2021-22*.

[hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2022/board-agenda-and-papers-26-may-2022/agenda-and-papers-26-may-2022/item-32-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-report-2021-22-pdf/](https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2022/board-agenda-and-papers-26-may-2022/agenda-and-papers-26-may-2022/item-32-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-report-2021-22-pdf/)

## Mae rolau cymorth nyrsio yn rhan hanfodol o'r tîm ond maent yn risg i gleifion os cânt eu defnyddio yn lle nyrsys cofrestredig

Mae'r dystiolaeth yn glir iawn bod gwybodaeth, sgiliau a barn broffesiynol y nyrs gofrestrdedig mewn swydd oruchwyliol yn gwneud gwahaniaeth hollbwysig i ganlyniadau a diogelwch cleifion. Mae pob cynnydd o 10% yn nifer y nyrsys â gradd mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% yn nifer y marwolaethau ymysg cleifion.<sup>15</sup>

Serch hynny, mae amnewid rolau – sef defnyddio staff anghofrestredig ar gyfer rolau a thasgau sy'n gofyn am nyrs gofrestrdedig – yn risg wirioneddol. Mae amnewid rolau yn digwydd pan fydd cyflogwyr yn y GIG a'r sector annibynnol, sy'n brwydro i lenwi bylchau yn eu gweithlu nyrsio cofrestredig, yn troi at newid lefel y swydd wag fel nyrs gofrestrdedig i lefel ymarferydd cynorthwyol (AP), cydymaith nyrsio, neu weithiwr cymorth gofal iechyd (HCSW).

Mae staff cymorth fel HCSWs ac APs yn rhan hanfodol o'r gweithlu nyrsio. Gall fod gan weithwyr cymorth nyrsio lefelau gwahanol o brofiad, cymwysterau ac arbenigeddau, ac amrywiaeth o deitlau swyddi i adlewyrchu hyn, megis Ymarferydd Cynorthwyol. Mae eu cyfraniad yn werthfawr ac yn wahanol i gyfraniad nyrs gofrestrdedig.

Mae'n bwysig bod staff cymorth dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth glinigol nyrs gofrestrdedig. Ni ddylid byth eu gorfodi i weithio y tu hwnt i'w cymwyseddau neu gwmpas ymarfer, ac ni ddylid eu defnyddio i gymryd lle nyrsys cofrestredig nac i lenwi swyddi nyrsys cofrestredig gwag. Mae *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn ddiawmsys wrth ddweud, er y gall nyrs gofrestrdedig ddirprwyo dyletswyddau i staff eraill, presenoldeb y nyrs sy'n bwysig o ran diogelwch cleifion:

“Mae nifer y nyrsys yn **golygu nifer y nyrsys cofrestredig** (sef y rheini sydd â chofrestriad byw ar Is-Rannau 1 neu 2 o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth). Wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio, gellir hefyd ystyried dyletswyddau nyrsio a gyflawnir **dan oruchwyliaeth, neu a ddirprwyir i berson arall gan**, nyrs gofrestrdedig.”<sup>16</sup>

Nid ar chwarae bach y dylid cymryd y broses o ddatblygu rolau newydd fel ymarferwyr cynorthwyol a chymdeithion nyrsio. Dylid diffinio eu diben yn glir cyn eu cyflwyno. Mae'r risg y bydd cleifion yn derbyn gofal is na'r safon sy'n arwain at niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol yn sylweddol. Ni ddylai fod unrhyw bosibilrwydd o amnewid rolau yn amhriodol gan gyflwyno rolau newydd ym meysydd iechyd neu ofal cymdeithasol.

## Gall buddsoddi mewn systemau TG wneud cydymffurfio a chraffu yn haws

Cydnabuwyd wrth basio *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* y byddai casglu'r swm mawr o ddata sifftiau o ddydd i ddydd gwirioneddol sydd ei angen i gyfrifo lefelau staff nyrsio'r dyfodol yn gywir yn her.<sup>17</sup> Ar y pryd, nid oedd yr un bwrdd iechyd yn rhedeg system TG a allai gofnodi, cynaeafu, a chyflwyno'r data mewn ffordd ystyrlon.<sup>18</sup> Mae Allocate SafeCare (“SafeCare”) yn becyn meddalwedd a gynlluniwyd i wneud hyn.

<sup>15</sup> Rafferty, A.M et al. (2014). Nurse staffing and education and hospital mortality in nine European countries: a retrospective observational study. *The Lancet*, 383(9931),1824-1830. [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(13\)62631-8](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(13)62631-8).

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Hawlfraint y Goron 2021: canllawiau statudol (fersiwn 2)*. <https://www.llyw.cymru/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-hawlfraint-y-goron-2021-canllawiau-statudol-fersiwn-2-html>

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Crynodeb statudol o adroddiadau lefelau staff nyrsio 2018-2021*. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-crynodeb-statudol-o-adroddiadau-lefelau-staff-nyrsio-2018-2021.pdf>

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Crynodeb statudol o adroddiadau lefelau staff nyrsio 2018-2021*. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-crynodeb-statudol-o-adroddiadau-lefelau-staff-nyrsio-2018-2021.pdf>

Mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru wedi ymrwymo i weithredu SafeCare ar eu wardiau Adran 25B erbyn mis Tachwedd 2023.

Drwy ei gwneud hi'n hawdd i fwrdd iechyd ddangos i ba raddau y mae'n cydymffurfio â *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, mae gan SafeCare y potensial i gynyddu'n ddramatig dryloywder o ran faint o'u hamser y mae nyrsys yn ei dreulio gyda llai o gydweithwyr ar ddyletswydd nag sydd ei angen arnynt i sicrhau diogelwch cleifion.

Mae'r data sydd ar gael hyd yn hyn yn dangos bod lefelau staffio yn amhriodol o isel rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2023 ar 42% o sifftiau ar wardiau Adran 25B ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac ar 31% o sifftiau o'r fath ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ym mis Mehefin 2022, roedd 24% o sifftiau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn perthyn i'r categori hwn.

Mae'r niferoedd hyn yn destun pryder. Er bod argaeledd y data hyn yn gam sylweddol ymlaen ac y dylid ei ddathlu, rhaid i fyrddau iechyd hefyd, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, fynd i'r afael â lefelau staffio amhriodol.

Mae byrddau iechyd ar gamau gwahanol o ran rhoi SafeCare ar waith. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain y ffordd ar hyn o bryd, gyda Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chaerdydd a'r Fro yn agos ar ei ôl. Ym mis Mai 2023, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei fod wedi gwneud "cynnydd da" a disgwylir iddo gael ei gwblhau ddechrau mis Gorffennaf 2023.<sup>19</sup> Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio ar ddatrysiad i wrthdaro rhwng dau lwyfan TG ac wedi dweud y bydd SafeCare yn cael ei roi ar waith ar draws y bwrdd iechyd erbyn mis Tachwedd 2023.<sup>20</sup> Disgrifiodd Bae Abertawe y gweithrediad fel un "parhaus" ac ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni yn ystod haf 2023.<sup>21</sup>

Nid oes gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys unrhyw wardiau Adran 25B i adrodd data arnynt.

## Mae'r gweithlu nyrsio yn wynebu heriau difrifol yng Nghymru

Yr her fwyaf sylweddol wrth weithredu a chydymffurfio â *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yw maint y gweithlu nyrsio.

Rhwng mis Mawrth 2017 a mis Mawrth 2022, cynyddodd y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth 7%. Fodd bynnag, mae hyn yn gymharol fach o gymharu â thwf grwpiau proffesiynol eraill yn y GIG. Dros yr un cyfnod, cynyddodd nifer y gweithwyr meddygol a deintyddol proffesiynol 23%. Ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, y ffigwr yw 28%.

At hynny, mae aciwtedd cleifion (dwysedd y gofal nyrsio sydd ei angen ar gleifion) hefyd wedi parhau i dyfu, sy'n golygu bod angen mwy o nyrsys nawr nag erioed o'r blaen.

Bob blwyddyn, mae RCN Cymru yn cyhoeddi trosolwg ystadegol o gryfderau a gwendidau'r gweithlu nyrsio. Yn adroddiad eleni, Niferoedd Nyrsio 2023, canfuom y canlynol:

- Bod **2,717** o swyddi gwag nyrsys cofrestredig ar draws y saith bwrdd iechyd.
- Cynyddodd gwariant cyfunol byrddau iechyd ar nyrsio asiantaeth o £133 miliwn i **£161 miliwn** yn 2022/23.
- Gallai hyn dalu cyflogau **5,591** o nyrsys Band 5 newydd gymhwyso llawnamser.
- Gwariodd GIG Cymru **£33.78 miliwn** ar oramser ar gyfer nyrsio.

<sup>19</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2023). *Papurau'r Bwrdd - 24 Mai 2023*. [abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/](https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/)

<sup>20</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)*. [ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/25-may-2023/5-6b-annex-a-annual-assurance-report-of-compliance-for-nsa-final-1-1-uhb-25-may-2023-pdf/](https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/25-may-2023/5-6b-annex-a-annual-assurance-report-of-compliance-for-nsa-final-1-1-uhb-25-may-2023-pdf/)

<sup>21</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 2022-23 ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*. [sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/](https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/)



Mae byrddau iechyd i gyd wedi gwneud sylwadau ar yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth recriwtio a chadw nyrsys, ac maent ar gamau gwanhaol o ran datblygu cynlluniau i liniaru'r pwysau ar eu gweithluoedd nyrsio a chadw cleifion yn ddiogel. Archwilir y rhain yn Adran 2 y cyhoeddiad hwn.

## Arolwg o wybodaeth gyhoeddus am wardiau Adran 25B

Mae'n ddyletswydd ar fyrddau iechyd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ar bob ward adran 25B am lefel y staff nyrsio ynghyd â "chwestiynau cyffredin" am *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, a rhaid iddynt ddarparu'r wybodaeth hon yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn wedi'i nodi'n glir yn y gyfraith ei hun o dan Adran 25B ac yn ei chanllawiau statudol.<sup>22</sup> Mae'r canllawiau gweithredol yn cynnwys templedi a ddylai wneud cydymffurfio yn dasg hawdd.

Cynhaliodd aelodau RCN Cymru ledled Cymru arolwg o 29 o wardiau Adran 25B ar draws pedwar bwrdd iechyd gwahanol ym mis Medi 2023.

Roedd gan 22 o'r wardiau hyn wybodaeth am lefelau staffio ar gael i'r cyhoedd. O'r 22 ward hynny, dywedodd aelodau fod y wybodaeth yn hawdd i'w chanfod ar 20 ward. Fodd bynnag, roedd naw ohonynt naill ai heb gynnwys y dyddiad y cytunwyd y lefel staffio arno ddiwethaf gan y bwrdd, neu'n dangos dyddiad a oedd dros flwydd oed.

Ar 14 o'r wardiau, dywedodd yr aelodau iddynt ddod o hyd i'r wybodaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Fodd bynnag, o'r 29 ward a arolygwyd, dim ond wyth oedd â Chwestiynau Cyffredin am *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* ar gael i'r cyhoedd. Roedd saith o'r rhain mewn un bwrdd iechyd.

Er mai arolwg ciplun oedd hwn, mae'r canfyddiadau hyn yn destun pryder. Roedd gwella tryloywder cyhoeddus yn sail resymegol arwyddocaol dros basio'r *Ddeddf*. Mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd yn gallu bod yn sicr o ymrwymiad byrddau iechyd i ofal diogel ac effeithiol.

Mae RCN yn credu y dylai pob bwrdd iechyd gymryd camai i sicrhau cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau wrth hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio ar bob ward Adran 25B, gan gynnwys gwneud hynny mewn modd sy'n amlwg i bawb sy'n mynychu'r ward.

---

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Hawlfraint y Goron 2021: canllawiau statudol (fersiwn 2)*. <https://www.llyw.cymru/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-hawlfraint-y-goron-2021-canllawiau-statudol-fersiwn-2-html>

## Adran 2: Adroddiadau Byrddau Iechyd

Mae adran hon yn defnyddio papurau bwrdd cyhoeddus i edrych yn fwy manwl ar gynnydd byrddau iechyd o ran cydymffurfio â gofynion *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* a'r heriau y maent yn eu hwynebu o hyd.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

#### Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

1. A yw'r bwrdd yn cael adroddiad rheolaidd ar gydymffurfiaeth ag Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*?
2. A oes gwybodaeth gyhoeddus glir am y lefelau staff nyrsio ar eich wardiau Adran 25B?
3. Pa effaith y mae Strategaeth Gweithlu Nyrsio, Bydwreigiaeth a Nyrsio Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'i chael ar leihau nifer y swyddi gwag i nyrsys cofrestredig?
4. Pa amserlenni sydd ar waith ar gyfer y camau cadw nyrsio y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ymrwymo iddynt?

#### Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae adroddiad sicrwydd blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn nodi bod diffyg uchel o ran nyrsys cofrestredig. Gallai hyn effeithio ar ofal cleifion.

Yn galonogol, yn ogystal â bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun cadw nyrsys Cymru Gyfan, mae papurau mis Mai 2023 yn dangos bod y bwrdd wedi datblygu ei "strategaeth gweithlu Nyrsio, Bydwreigiaeth a Nyrsio Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol 2023-2026" ei hun. Ynnddi, mae'r bwrdd yn cydnabod bod angen mwy o nyrsys i sicrhau y gall gyflawni ei ddyletswyddau o dan *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* a dibynnu'n llai ar staff dros dro (h.y. staff asiantaeth).<sup>23</sup>

Mae'r strategaeth yn nodi ystod o gamau gweithredu gydag amserlenni, gan gynnwys cynllun recriwtio erbyn mis Mehefin 2023. Ei nod yw gwella cyfraddau cadw drwy wella mynediad at weithio hyblyg, a thrwy annog a chefnogi'r defnydd o hunan-amserlennu (Mehefin 2023 a Medi 2023 yn y drefn honno). Mae dull ffurfiol o gynllunio olyniaeth erbyn mis Hydref 2023 hefyd yn ymddangos. Mae pwyslais ar lwybrau i nyrsio a chefnogi staff newydd yn ystod eu tri mis cyntaf, ar sicrhau cyfleuster addysg addas at y diben ar gyfer nyrsys a bydwreagedd, ac ar gyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfa i rolau nyrsio uwch fel nyrsys clinigol arbenigol a nyrsys ymgynghorol.

O gymeradwyo'r Strategaeth ym mis Mai 2023 tan fis Medi, mae'r Bwrdd wedi gweld gwelliant yn ei sefyllfa o ran lleoedd gwag a oedd yn destun pryder. Mae hyn o ganlyniad i recriwtio nyrsys sydd newydd gymhwyso, 75 o nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol yn llwyddo i gael eu PIN NMC, a nifer o nyrsys asiantaeth yn sicrhau swyddi parhaol. O ran cadw, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar fetrigau cadw, mae'n cysylltu "caffis cadw" â'i raglen gynefino, ac mae'n adolygu ei holiadur ymadael i ddeall yn well pam mae pobl yn gadael.

<sup>23</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2023). *Papurau'r Bwrdd - 24 Mai 2023*. <https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/>



Mae'r bwrdd hefyd wedi sefydlu 'Academi Nyrsys a Bydwreigiaeth y Dyfodol' i gefnogi gweithwyr cymorth gofal iechyd ar unrhyw gam yn eu gyrfa i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r llwybr "camu ymlaen, camu oddi arno" hyblyg yn cynnig llwybr clir i HCSW ennill gradd nyrsio a dod yn nyrs gofrestredig os yw'n dymuno gwneud hynny. Ar yr un pryd, mae'r bwrdd yn datblygu llwybr i recriwtio gweithwyr cymorth gofal iechyd o blith gwirfoddolwyr medrus presennol.<sup>24</sup>

Gallai'r holl gamau cadarnhaol hyn helpu i gadw nyrsys cofrestredig ac maent yn arwyddion bod y bwrdd yn cydnabod gwerth nyrsio wrth ddarparu gofal diogel i gleifion. Dylai'r bwrdd sicrhau bod e effaith yn cael ei gwerthuso a'r hyn a ddysgir yn cael ei rannu â chyflogwyr eraill GIG Cymru.

Bydd recriwtio ar gyfer swyddi nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig yn canolbwyntio ar recriwtio Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd band 2 fel "nyrs neu fydwraig y dyfodol".

## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Mae'r bwrdd iechyd wedi datgan yn gyhoeddus yn ddiweddar ei fwriad i gynnwys adran ar gydymffurfio ag Adran 25A yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol, ac mae hyn i'w groesawu.

Mae gan y Bwrdd nifer o brosesau a fframweithiau mewnol ar waith ar gyfer monitro ei lefelau staff nyrsio, gan gynnwys cydymffurfio ag Adran 25A. Mae'r rhain yn cynnwys fframweithiau, prosesau uwchgyfeirio, a thraciwr wythnosol a dangosfwrdd sy'n ymdrin â diffygion staff nyrsio nad ydynt yn gyfyngedig i'r rhai o dan adran 25B. Cyflwynir adroddiad misol ar gydymffurfio â'r Ddeddf i Gyfarfod Gweithlu Nyrsio Bydwreigiaeth Strategol lle caiff pob maes nyrsio ei gynrychioli.

Mae'r Bwrdd hefyd yn defnyddio'r broses ailgyfrifo lefel staff nyrsio mewn rhai meysydd y tu allan i Adran 25B, gan gynnwys wardiau ysbytai cymunedol, ardaloedd asesu gan gynnwys adrannau achosion brys ac unedau bregus yr henoed, a gofal critigol.

Yn anffodus, mae gwybodaeth gyhoeddus am y prosesau hyn a'u heffaith ar ofal cleifion yn gyfyngedig iawn. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwneud sylwadau ar waith y Bwrdd yn y meysydd hyn, er gwaethaf y swm sylweddol o waith y mae hyn yn ei gynrychioli. Dylai'r Bwrdd ystyried cofnodi a chyhoeddi'r gwaith yn ei gyfarfodydd bwrdd ffurfiol, ac a ellir dod i gasgliadau neu ddysgu o'i waith a allai fod yn ddefnyddiol i lywio ymarfer a Rhaglen Staffio Nyrsio Cymru Gyfan.

Pan fydd rhai mathau o ddigwyddiadau difrifol ar ward sy'n dod o dan Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, rhaid i fyrddau iechyd eu cofnodi, rhoi gwybod amdanynt, a phenderfynu a oedd methiant i gynnal lefelau staff nyrsio yn ffactor cyfrannol.

Rhwng 2018 (pan ddaeth Adran 25B i rym) a 2022, ni chafodd y bwrdd fwy na phedwar digwyddiad y flwyddyn lle credir bod lefelau isel o staff nyrsio wedi cyfrannu atynt. Fodd bynnag, cafwyd deuddeg digwyddiad o'r fath yn 2022-23, er bod nifer cyffredinol y digwyddiadau difrifol yn y bwrdd wedi gostwng.

Yn ddiweddar, mae'r bwrdd wedi ailsefydlu Rhaglen Gydweithredol Gwella Ansawdd i ddileu'r holl friwiau pwyso gradd 3, 4, a briwiau pwyso a gafwyd wrth gael gofal iechyd annosbarthedig.

---

<sup>24</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2023). *Papurau'r Bwrdd – 24 Mai 2023*.

<https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/>

## Risg amnewid rolau

Fel byrddau iechyd eraill, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ehangu ei ddefnydd o “ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i gryfhau a sefydlogi'r gweithlu”, neu rolau nyrsio newydd. Er bod y bwrdd yn cadarnhau ei fod yn canolbwyntio ar “ddirprwyo diogel ac effeithiol i wella diogelwch ac ansawdd cleifion”<sup>25</sup> a dirprwyo priodol, dylai ofalu i beidio â chrwydro i ddirprwyo nyrsys cofrestredig dros staff eraill.

Mae papur bwrdd Strategaeth Gweithlu Nyrsio, Bydwreigiaeth a Nyrsio Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol 2023-2026 y bwrdd ei hun yn dyfynnu modelu diweddar sy'n rhagweld cynnydd yn nifer y swyddi nyrsio gwag yn y bwrdd o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'r papur yn mynd ati i wneud sylwadau ar yr angen i “gyfeirio'r gweithlu nyrsio cyfyngedig at rolau y gall nyrsys yn unig eu cyflawni” gan gadarnhau ei fod yn bwriadu “datblygu ac ehangu rolau band 3 a band 4 ymhellach”.<sup>26</sup> Mae'r gydnabyddiaeth mai dim ond nyrsys cofrestredig y gall nyrsys cofrestredig eu cyflawni yn galonogol o safbwynt diogelwch cleifion.

## Hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Mae adroddiad sicrwydd blynyddol 2023 y bwrdd ar gydymffurfiaeth â *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn sôn, yn dilyn pob cylch chwe mis, fod posteri dwyieithog yn cael eu harddangos wrth fynedfa pob ward sy'n cynnwys y sefydliad gofynnol a'r dyddiad y cyflwynwyd hyn i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi nodi y bydd wardiau'n cael eu harchwilio fel rhan o'r broses o gyflwyno achredu wardiau ar sail gwybodaeth am lefelau staffio a arddangosir ar bob ward Adran 25B. Dylid adrodd ar ganlyniadau'r archwiliadau hyn i'r bwrdd.

---

<sup>25</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2023). *Papurau'r Bwrdd – 24 Mai 2023*. <https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/>

<sup>26</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2023). *Papurau'r Bwrdd – 24 Mai 2023*. <https://abuhb.nhs.wales/files/key-documents/public-board-meetings/abuhb-board-papers-24th-may-2023-final/>

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1. A yw'r bwrdd yn cael adroddiad rheolaidd ar gydymffurfiaeth ag Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*?
2. A yw eich ymdrechion i gadw staff nyrsio wedi arwain at unrhyw ganlyniadau y gellir eu hailadrodd ledled Cymru?
3. Ymddengys fod cyflwyno SafeCare wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Betsi Cadwaladr. A yw'r gwersi a ddysgwyd o hyn wedi'u rhannu â byrddau iechyd eraill?
4. Beth ydych chi'n ei wneud i leihau achosion o niwed pwyso ar wardiau Adran 25B yn Ysbyty Gwynedd?
5. Beth ydych chi'n ei wneud i wella mynediad at wybodaeth gyhoeddus am lefel y staff nyrsio ar eich wardiau Adran 25B?

### Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio mwy o nyrsys dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn difrifol mewn aciwtedd cleifion wedi golygu bod angen y bwrdd iechyd am staff nyrsio wedi cynyddu'n gyflymach nag y mae wedi gallu recriwtio.

Gan ychwanegu at y pwysau, mae'r niferoedd sy'n gadael hefyd yn fawr. Yn 2022, nifer y nyrsys cofrestredig WTE a recriwtiwyd gan y bwrdd iechyd oedd 609.5, ond gadawodd 420.6. Yn 2023 gwelwn ddarlun tebyg: ymunodd 509.7 o nyrsys cofrestredig, ond gadawodd 388.3.<sup>27</sup>

Mae gan y bwrdd iechyd nifer mawr o swyddi gwag nyrsys cofrestredig: 882.6 WTE ym mis Awst 2023. Mae hyn fwy na dwywaith cymaint â Bae Abertawe, a oedd â'r nifer o swyddi gwag uchaf wedyn. Mae RCN Cymru yn pryderu y gallai nifer y swyddi gwag effeithio ar ofal cleifion.

Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, dros ddwy flynedd, mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu recriwtio 380 o nyrsys cofrestredig WTE yn rhyngwladol, y bydd 80 ohonynt yn nyrsys iechyd meddwl cofrestredig. Hyd yma, mae'r bwrdd iechyd wedi recriwtio 58 o nyrsys cofrestredig WTE o dan y rhaglen.<sup>28</sup>

Mae rhaglen cadetiaid yn y bwrdd iechyd yn cynnig llwybr i fyd iechyd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol gyda chymhwyster lefel 2 (lefel TGAU). Mae'r bwrdd iechyd yn cynnig absenoldeb astudio a chymorth i HCSWs i symud ymlaen i rolau Ymarferydd Cynorthwyol band 4, a chymorth i lwybrau rhan-amser i nyrsio gyda Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, a'r Brifysgol Agored. Gyda chefnogaeth y bwrdd iechyd, mae nifer cynyddol o HCSWs wedi cyflawni cymwysterau lefel 5 a 6, sy'n aml yn gysylltiedig â graddau sylfaen a graddau anrhydedd yn y drefn honno. Byddai addysg o'r fath yn llwybr i ddod yn ymarferydd cynorthwyol neu'n nyrs gofrestrdig.

<sup>27</sup> Wood, A. (2023). *FOI response regarding implementation of the Nurse Staffing (Levels) Wales Act 2016* [Llythyr i Helen Whyley]. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

<sup>28</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. (2023). *Papurau'r Bwrdd – 25 Mai 2023*.

<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/25-5-23-agenda-bundle-public-vf2-compressed-n-v3-0/>

Mae'r bwrdd wedi croesawu'r cyhoeddiad am gymorth ariannol i benodi "Arweinydd Cadw" i oruchwylio'r broses gychwynnol o weithredu'r cynllun cadw nyrsio cenedlaethol. Mae hefyd wedi sefydlu ei ystod ei hun o raglenni a rolau mewn ymdrech i gynyddu cyfraddau cadw. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Gweithlu a Staffio Nyrsio a Bydwreigiaeth i fonitro ei gynnydd yn erbyn cynlluniau cadw, Swyddogion Cymorth Bugeiliol ar gyfer yr holl staff nyrsio a bydwreigiaeth newydd, a rhaglen diwtoriaeth yn benodol i gefnogi graddedigion newydd. Mae rhaglen strwythuredig 24 mis yn rhoi cyfle i nyrsys band 5 wella eu gyrfaoedd drwy gylchdroi, addysg a hyd yn oed ymgeiswyr llwyddiannus "llwybr carlam" i swyddi band 6 byddant yn dymuno gwneud hynny.

Er gwaethaf yr ystod eang hon o gamau gweithredu i gadw staff nyrsio, mae papurau'r bwrdd o fis Mai yn dangos bod y camau y mae'r bwrdd wedi'u cymryd i gynnal ei lefelau staff nyrsio yn cynnwys canslo absenoldeb astudio.<sup>29</sup> Yn naturiol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ceisio sicrhau gofal diogel i gleifion, ond ni ddylai canslo absenoldeb astudio gael ei ystyried yn 'gam rhesymol'. Gallai hyn o bosibl lesteirio dilyniant a datblygiad gyrfa nyrs ac, yn y pen draw, ei chadw yn y bwrdd iechyd.

## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Serch hynny, mae gwasanaethau nyrsio a ddarperir gan y bwrdd iechyd nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn destun adolygiadau staffio blynyddol. Mae'r bwrdd yn datblygu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer adolygiadau a chyfrifiadau lefel staff nyrsio, a bydd rhannau ohonon berthnasol i bob maes nyrsio (adran 25A a 25B).

Mae papurau bwrdd mis Mai 2023 yn cadarnhau bod lefelau staff nyrsio ar draws y bwrdd iechyd wedi'u "cyfrifo ar lefel sy'n dangos yr ymrwymiad i" ddyletswydd y bwrdd o dan Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<sup>30</sup> Dyma'r ddyletswydd i "roi sylw i bwysigrwydd darparu digon o nyrsys i ganiatáu amser i nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif".

Gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain y ffordd o ran rhoi'r feddalwedd staffio dyddiol SafeCare ar waith, mae bellach yn bosibl asesu lefelau staff nyrsio ar ei wardiau Adran 25B fesul sifft. Mae hyn yn newyddion gwych ar gyfer tryloywder a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, mae'r darlun a gyflëwyd gan y data yn destun pryder. Dim ond 22% o'r amser y cyflawnwyd rhestrau dyletswyddau arfaethedig staff ar y wardiau hyn gyda lefelau staffio gwirioneddol briodol. Mewn cymhariaeth, 31% o'r amser, ni chyflawnwyd rhestrau dyletswyddau arfaethedig, ac ystyriwyd bod lefelau staffio yn amhriodol. Fodd bynnag, wrth edrych yn benodol ar wardiau pediatrig, mae'r ffigur blaenorol yn codi i 54%. Er hynny, yn ystod 17% o sifftiau ward pediatrig, ni chyflawnwyd rhestrau dyletswyddau arfaethedig, ac ystyriwyd bod lefelau staffio yn amhriodol.<sup>31</sup>

Ers 2020/21, mae nifer y cwmpiaidau, nifer y digwyddiadau "byth" o ran meddyginiaeth a chwynion nyrsio ar wardiau Adran 25B y bwrdd wedi gostwng, ond mae nifer cynyddol o gleifion yn dioddef niwed pwysu. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae'r nifer wedi codi'n gyson o 54 i 185. Yn ogystal, ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 13 o achosion o'r fath yn gysylltiedig â lefelau staff nyrsio, o gymharu â dim un y flwyddyn gynt. Mae dros hanner y digwyddiadau ar gyfer 2022/23, a'r holl achosion lle ystyriwyd lefelau staffio nyrsio yn ffactor cyfrannol ar gyfer niwed pwysu a gafwyd yn yr ysbyty, yn dod o un safle ysbyty, sef Ysbyty Gwynedd.

<sup>29</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. (2023). *Papurau'r Bwrdd – 25 Mai 2023*.

<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/25-5-23-agenda-bundle-public-vf2-compressed-n-v3-0/>

<sup>30</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. (2023). *Papurau'r Bwrdd – 25 Mai 2023*.

<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/25-5-23-agenda-bundle-public-vf2-compressed-n-v3-0/>

<sup>31</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. (2023). *Papurau'r Bwrdd – 25 Mai 2023*.

<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/25-5-23-agenda-bundle-public-vf2-compressed-n-v3-0/>

## Risg amnewid rolau

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi dweud bod timau gweithredol yn defnyddio eu barn broffesiynol i sicrhau bod lefelau staffio, lle bynnag y bo modd, yn cael eu cynnal a lle nad oes modd, yn cael eu lliniaru. Nid yw'r bwrdd iechyd yn gwneud sylwadau uniongyrchol ar amnewid rolau y tu hwnt i amlinellu camau lliniaru pan na chynhelir lefelau staff nyrsio ar wardiau Adran 25B. Fodd bynnag, mae'n nodi bod Ymarferwyr Cynorthwyol band 4 yn "ymgymryd â dyletswyddau estynedig ar sail asesiad cymhwysedd".<sup>32</sup>

## Hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Mae'r bwrdd wedi dweud ei fod yn hysbysu pobl o lefel y staff nyrsio ar wardiau Adran 25B drwy fyrddau gwybodaeth sydd wedi'u lleoli wrth fynedfa pob un o'r wardiau.<sup>33</sup>

Cynhaliodd aelodau RCN Cymru arolwg o un deg pedair ward Adran 25B ym mis Medi 2023 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. O'r un deg pedwar ward hyn, roedd gan naw ohonynt wybodaeth am lefel y staff nyrsio a oedd ar gael i'r cyhoedd. Roedd y pum ward nad oedd ganddynt wybodaeth i gyd yn Ysbyty Glan Clwyd.

Nid oedd yr un o'r wardiau a arolygwyd yn y bwrdd iechyd yn gallu rhoi enghraifft o Gwestiynau Cyffredin gwybodaeth cleifion ar *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* yn y Gymraeg nac yn Saesneg.

---

<sup>32</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. (2023). *Papurau'r Bwrdd – 25 Mai 2023*.

<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/25-5-23-agenda-bundle-public-vf2-compressed-n-v3-0/>

<sup>33</sup> Wood, A. (2023). *FOI response regarding implementation of the Nurse Staffing (Levels) Wales Act 2016* [Llythyr i Helen Whyley]. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

### Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

1. A yw'r bwrdd yn cael adroddiad rheolaidd ar gydymffurfiaeth ag Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*?
2. A yw eich ymdrechion i gadw staff nyrsio wedi arwain at unrhyw ganlyniadau y gellir eu hailadrodd ledled Cymru?
3. Sut ydych chi'n defnyddio'r data a gasglwyd gan SafeCare i lywio lefelau staffio?
4. A yw eich cynllun i ddod â'ch defnydd o HCSWs asiantaeth i ben erbyn Ebrill 2023 wedi bod yn llwyddiannus?
5. Beth ydych chi'n ei wneud i wella mynediad at wybodaeth gyhoeddus am lefel y staff nyrsio ar eich wardiau Adran 25B?

### Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fentrau ar waith er mwyn helpu i gadw ei nyrsys cofrestredig.<sup>34</sup> Maent yn cynnwys “Clinig Gyrfaoedd” i gynghori a chefnogi nyrsys i ddatblygu eu gyrfaoedd heb adael y bwrdd iechyd, ac arolwg “Dechreuwyr Newydd” o nyrsys a recriwtiwyd yn hydref 2022 er mwyn helpu'r bwrdd i ddeall eu profiad fel gweithiwr newydd a sut y gellid ei wella.

Mae'r bwrdd hefyd wedi datblygu “pecyn cymorth cadw”, er nad yw ei gamau gweithredu yn benodol i nyrsio. Mae hwn yn wendid gan fod angen cymryd camau penodol i fynd i'r afael â'r materion sy'n ysgogi cyfraddau cadw isel o nyrsys cofrestredig, megis mynediad at addysg a'r trefniadau cyflog a gwaith sydd ar gael gan asiantaethau sy'n aml yn fwy deniadol. Nid yw'n glir ychwaith beth y mae'r bwrdd yn ei wneud i fesur llwyddiant y mentrau hyn.

Mae'r bwrdd wedi datblygu llwybr datblygu 'Nofis i Nyrs' sy'n cefnogi gweithwyr cymorth gofal iechyd i ddod yn nyrsys cofrestredig.<sup>35</sup> Ceir hefyd gyfleoedd addysgol er mwyn helpu i weithredu Ymarferwyr Cynorthwyol mewn nyrsio.

Mae'r bwrdd hefyd wedi sefydlu cynllun i dargedu gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n gweithio i asiantaethau a'u recriwtio i “fanc” mewnol y GIG o staff sydd ar gael ar gyfer sifftiau dros dro yn lle hynny. Rhwng mis Mai 2022 a mis Ionawr 2023, recriwtiodd bron i 400 o HCSWs i'r banc.

Fodd bynnag, mae'r bwrdd yn parhau i'w chael hi'n anodd recriwtio digon o staff nyrsio. Ym mis Mehefin 2022, cofnododd y bwrdd gyfraddau swyddi gwag o 11.26% ar draws y grwpiau staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig, er gwaethaf targed o 5%. Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 314 o swyddi gwag nyrsys cofrestredig WTE ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

<sup>34</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (2022). *Cynllun Pobl a Diwylliant 2022-25*. <https://bipcaf.gig.cymru/files/publications/cynllun-pobl-a-diwylliant-2022-25/>

<sup>35</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (2022). *Cynllun Pobl a Diwylliant – camau manwl*. <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2022-23/71p-appendix-19-our-people-and-culture-plan-detailed-actionsdocx/>



## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Mae'r bwrdd yn anarferol gan ei fod wedi defnyddio Adran 25A, y ddyletswydd gyffredinol i ddarparu "digon o nyrsys i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif lle bynnag y darperir gwasanaethau nyrsio", fel cyfrwng i wella lefelau staff nyrsio. Wrth wneud hynny, mae wedi gwneud cynnydd sylweddol ers 2021 o ran lefelau staff nyrsio yn ei wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol.<sup>36</sup>

Yn ystod 2019 a 2020, tynnodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol sylw'r bwrdd yn gyson at y ffaith nad oedd lefelau staff nyrsio yn ei wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol yn cydymffurfio ag Adran 25A. Yn 2021, cyfarwyddodd y bwrdd ei Dîm Rheoli Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl i fynd i'r afael â bylchau mewn staff nyrsio ar wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol, ynghyd â dyraniadau ariannol cysylltiedig, yn ei gynllun tymor canolig integredig (IMTP) drwy 2021/2022.<sup>37</sup>

Erbyn 2022, roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn gallu cymeradwyo'r sefydliadau nyrsio sydd eu hangen i ofalu am gleifion mewn modd sensitif ar draws y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl. Er mwyn sicrhau bod y lleoedd hyn yn aros yn ddiogel i gleifion, cynhaliodd y Bwrdd Clinigol adolygiadau dyddiol a defnyddio tanwariant mewn manau eraill yn y Bwrdd Clinigol, gan adleoli ei staff ei hun a defnyddio staff dros dro.

Gostyngodd nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt ar wardiau Adran 25B ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn sydyn o 2018-19, sef y flwyddyn y daeth y gyfraith i rym, i 2020-21. Roedd y gostyngiad yn nifer yr achosion o niwed pwysu yn sydyn iawn, o 94 i ddim ond 4. Mae cynnydd cyffredinol ers hynny, wedi'i ysgogi'n rhannol o leiaf gan newid yn y ffordd y caiff achosion o niwed pwysu eu cofnodi yn 2022-23.

Fodd bynnag, cafodd y bwrdd chwe achos o niwed pwysu yn 2022-23 lle roedd methiant i gynnal y lefel staff nyrsio yn benderfynol o fod wedi chwarae rhan. Mae hynny'n fwy nag unrhyw flwyddyn arall, a chwe gwaith cymaint ag yn 2018-19.

## Risg amnewid rolau

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwneud newid dros dro i'r sefydliad ar wardiau Adran 25B y gellid ei ddehongli fel un sy'n lleihau ei ddibyniaeth ar nyrsys cofrestredig o blaid HCSWs. Mae'r newid yn cynyddu nifer y HCSWs ar gontract parhaol ar draws y bwrdd iechyd i 'wella parhad gofal i gleifion'.<sup>38</sup> Mae'r bwrdd yn dweud y bydd hyn yn 'gwella profiad cleifion drwy gynyddu nifer y staff'.<sup>39</sup>

Mae papurau'r Bwrdd yn dangos bod y polisi hwn wedi'i roi ar waith i fynd i'r afael â'r risg na fydd y sefydliad yn gallu cyflawni rhestrau dyletswyddau arfaethedig staff nyrsio. Fodd bynnag, ni nododd y bwrdd iechyd ddyddiad terfyn ar gyfer y polisi na pha mor eang ydyw i bob pwrpas ar draws y bwrdd iechyd a'i wardiau Adran 25B. Dylid defnyddio'r polisi'n gynnil, gydag ystyriaeth ofalus a thrwy drafod â rheolwyr wardiau, ac ni ddylai fod ar waith am gyfnod estynedig o amser.

## Hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Yn ein harolwg ciplun, ymwelodd aelodau RCN Cymru â thair ward Adran 25B ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd gan bob un o'r wardiau wybodaeth ar gael i'r cyhoedd, er mai dim ond un oedd â'r wybodaeth hon yn ddwyieithog. Roedd gan y ward hon Gwestiynau Cyffredin ar gael yn Saesneg hefyd. Ar adeg yr arolwg, nid oedd unrhyw gwestiynau cyffredin ar gael yn Gymraeg yn unrhyw un o'r wardiau.

---

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru. (2021). *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 Hawlfraint y Goron 2021: canllawiau statudol (fersiwn 2)*. <https://www.llyw.cymru/deddf-lefelau-staff-nyrsio-cymru-2016-hawlfraint-y-goron-2021-canllawiau-statudol-fersiwn-2-html>

<sup>37</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (2020). *Papurau'r Bwrdd – 26 Tachwedd 2020*. <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/26-11-2020-board-public-meeting-pdf/>

<sup>38</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (2022). *Papurau bwrdd cyhoeddus – 24 Tachwedd 2022*. <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2022-23/20221124-public-board-papers-v10pdf/>

<sup>39</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (2022). *Papurau bwrdd cyhoeddus – 24 Tachwedd 2022*. <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2022-23/20221124-public-board-papers-v10pdf/>



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

1. A yw'r bwrdd yn cael adroddiad rheolaidd ar gydymffurfiaeth ag Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*?
2. A yw cynllun recriwtio a chadw nyrsys y bwrdd wedi'i gyhoeddi a pha ganlyniadau sydd wedi deillio ohono?
3. Sut mae'r bwrdd yn sicrhau ei hun nad oes disgwyl i staff cymorth weithio y tu allan i'w cymwyseddau o ganlyniad i'r codiad "dros dro" o HCSWs ar wardiau Adran 25B?
4. Beth ydych chi'n ei wneud i wella mynediad at wybodaeth gyhoeddus am lefel y staff nyrsio ar eich wardiau Adran 25B?

## Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae adroddiad sicrwydd lefel staff nyrsio blynyddol 2022 y bwrdd yn dangos bod cynnydd "dros dro" yn nifer y HCSWs wedi bod ar waith ar lawer o wardiau Adran 25B, rhai ers mis Mehefin 2021. Roedd angen staff ychwanegol ar un ward o'r fath i ymateb i gynnydd yn lefelau aciwtedd cleifion.<sup>40</sup> Mae eraill wedi wynebu heriau wrth i fwy o gleifion aros yn hirach i drosglwyddo o'r ysbyty i fathau eraill o ofal, megis cartrefi gofal.<sup>41</sup> Mae rhai o'r cleifion hyn yn wynebu risg fawr o gwmpo ac mae angen gwell goruchwyliaeth arnynt. Y canlyniad fu defnydd cynyddol o 'weithlu dros dro o HCSW'.<sup>42</sup>

Mae codiadau dros dro yn parhau yn 2023. Gofynnodd y Pennaeth Nyrsio am godiad parhaol wedi'i ariannu i'r gweithlu, ond ym mis Tachwedd 2022 gofynnodd y bwrdd iechyd am "graffu a dadansoddi manwl pellach" gan Gyfarwyddwyr Nyrsio ei Grŵp Gofal oherwydd ei "effaith ariannol".<sup>43</sup> Yr un mis, dywedwyd hefyd y byddai'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio yn cynnal adolygiad manwl o staff nyrsio, gan gynnwys polisïau goruchwyllo gwell y bwrdd.<sup>44</sup> Mae canlyniad yr adolygiad hwn, os cafwyd un, yn aneglur.

Yn ei gynllun tymor canolig integredig drafft ar gyfer 2023-26, mae'r bwrdd iechyd yn disgrifio datblygu model ar gyfer cynllunio'r gweithlu fel "blaenoriaeth allweddol". Mae'r cynllun yn mynd ati i ddisgrifio gwella cyfraddau cadw fel "conglfaen allweddol" ar gyfer ei waith ac mae'n sôn am ganolbwyntio'n gyntaf ar Nyrsys Cofrestredig band 5.<sup>45</sup>

<sup>40</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2022). *Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2022-board-papers/24-november-2022/53a-nslwa-report-uhb-24-november-2022pdf/>

<sup>41</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2022). *Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2022-board-papers/24-november-2022/53a-nslwa-report-uhb-24-november-2022pdf/>

<sup>42</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/25-may-2023/5-6b-annex-a-annual-assurance-report-of-compliance-for-nsa-final-1-1-uhb-25-may-2023-pdf/>

<sup>43</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2022). *Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2022-board-papers/24-november-2022/53a-nslwa-report-uhb-24-november-2022pdf/>

<sup>44</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2022). *Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2022-board-papers/24-november-2022/53b-appendix-a-november-annual-presentation-of-the-nurse-staffing-levels-to-1pdf/>

<sup>45</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2023). *Cynllun Tair Blynedd Drafft 2023-26 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/30-march-2023/52b-2023-26-three-year-plan-draft-uhb-30-march-2023pdf/>

Mae adroddiad sicrwydd blynyddol y bwrdd ar lefel staff nyrsio yn 2023 yn cyfeirio at “gynllun recriwtio a chadw nyrsio” ac mae’n mynd ati i ddweud ei fod wedi’i “diwygio i adlewyrchu’r heriau newydd a gyflwynir o ran llesiant staff”.<sup>46</sup>

Mae’n amlwg o hyn bod rhywfaint o waith ar y gweill er mwyn helpu i gadw staff nyrsio, ond prin yw’r wybodaeth gyhoeddus am yr hyn y mae’r cynlluniau hyn yn ei olygu, sut y byddant yn gwella llesiant staff, pwy fydd yn eu darparu, na sut y cânt eu monitro.

Nid yw adroddiad sicrwydd blynyddol 2023 yn sôn am sut mae’r bwrdd iechyd yn cefnogi gweithwyr cymorth gofal iechyd i ddatblygu eu gyrfaoedd. Fodd bynnag, mae ei gynllun tymor canolig integredig drafft ar gyfer 2023-26 yn sôn am ddatblygu ein cynlluniau a’n prentisiaethau ein hunain.<sup>47</sup> Dylai’r cynlluniau a’r prentisiaethau hyn fod ar gael i HCSWs.

## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Fel y rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gwneud sylwadau ar ei gydymffurfiaeth ag Adran 25A yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol ar lefelau staff nyrsio. Fodd bynnag, mae ei gynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2023-26 yn nodi bod diffyg o 315 o swyddi yn ei weithlu nyrsio yn achosi dibyniaeth ar staff asiantaeth sydd “wedi bod yn llai diogel ac effeithiol”, yn draenio cyllid, ac yn rhwystro buddsoddi mewn mannau eraill.<sup>48</sup>

Mae digwyddiadau cleifion yn ymwneud â methiant i gynnal y lefel staff nyrsio wedi aros yn isel iawn ers cyflwyno wardiau Adran 25B.

## Risg amnewid rolau

Nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch dirprwyo rôl yn adroddiadau sicrwydd blynyddol y bwrdd ar gyfer 2022 na 2023.

Er bod polisi “codiad dros dro” y bwrdd a ddisgrifir uchod yn ymddangos fel ymateb i oedi wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty ac nid yn achos o amnewid rolau, mae’n bwysig ystyried rôl y nyrs gofrestredig wrth gefnogi cleifion sy’n aros i gael eu trosglwyddo. Dylai Cyfarwyddwyr Nyrsio Grŵp Gofal y bwrdd iechyd ystyried a oes angen cynyddu nifer y nyrsys cofrestredig ochr yn ochr â HCSWs ar gyfer y cynnydd yn nifer y cleifion.

## Hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Mae papurau’r Bwrdd yn dweud, ar ôl yr archwiliad lefelau staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn ym mis Mehefin 2022, fod pob ward gymwys yn y bwrdd iechyd wedi cael templedi newydd i’w llenwi â gwybodaeth am lefel y staff nyrsio a’u harddangos. Yn ôl papurau’r bwrdd, mae taflenni gwybodaeth i gleifion ‘ar gael’, ac “y gellir” darparu posteri gwybodaeth a chwestiynau cyffredin sy’n esbonio *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.<sup>49</sup>

Yn ein harolwg ciplun, ymwelodd aelodau RCN Cymru â phum ward Adran 25B ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. O’r pum ward hynny, roedd gan dair ohonynt wybodaeth am lefel y staff nyrsio a oedd ar gael i’r cyhoedd. Fodd bynnag, o’r tair ward hynny, dim ond un a ddisgrifiwyd yn un hawdd ei chael, a dim ond un oedd â’r wybodaeth lefel staff nyrsio ar gael yn Gymraeg. Ar adeg yr arolwg, nid oedd gan yr un ohonynt daflenni Cwestiynau Cyffredin ar gael mewn unrhyw iaith.

---

<sup>46</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/25-may-2023/5-6b-annex-a-annual-assurance-report-of-compliance-for-nsa-final-1-1-uhb-25-may-2023-pdf/>

<sup>47</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2023). *Cynllun Tair Blynedd Drafft 2023-26 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg*. <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/30-march-2023/52b-2023-26-three-year-plan-draft-uhb-30-march-2023pdf/>

<sup>48</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. (2023). *Papur ategol Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-2026*.

<https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/30-march-2023/52a-board-imtp-2023-26-supporting-paper-uhb-30-march-2023pdf/>

<sup>49</sup> <https://ctmuhb.nhs.wales/about-us/our-board/board-papers/2023-board-papers/25-may-2023/5-6b-annex-a-annual-assurance-report-of-compliance-for-nsa-final-1-1-uhb-25-may-2023-pdf/>

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

### Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1. Ymddengys fod gan Hywel Dda broses dda o archwilio'r wybodaeth gyhoeddus ar wardiau Adran 25B. A yw'r gwersi hyn a ddysgwyd wedi'u rhannu ledled Cymru?
2. Beth yw canfyddiadau eich asesiadau o lefelau staffio mewn gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl, ymwelwyr iechyd, a nyrsys ardal?
3. Pa effaith ydych chi wedi'i gweld o'ch fframwaith strategol nyrsio a bydwreigiaeth, "Grymuso i Ofalu"? Sut mae'n berthnasol i'ch "cynllun sefydlogi'r gweithlu nyrsio" a chynllun cadw nyrsys newydd GIG Cymru?
4. Ymddengys fod y rhaglen datblygu prentisiaeth eich hun wedi bod yn llwyddiannus. A oes cynlluniau i ehangu hyn?

### Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fentrau ar waith i gefnogi cadw nyrsys ar ddechrau eu gyrfa a nyrsys mwy profiadol. Mae rhaglen diwtoriaeth pum mlynedd yn cefnogi nyrsys sydd newydd gymhwyso i ddod yn ymarferwyr profiadol. Yn y cyfamser, mae 37 o reolwyr ward wedi cwblhau rhaglen arweinyddiaeth o'r enw STAR ers ei sefydlu yn 2019, ac mae 17 arall yn dechrau yn 2023.

Mae Grŵp Cadw Nyrsys a sefydlwyd gan y bwrdd wedi cyd-ddatblygu pecyn cymorth gweithio hyblyg er mwyn helpu rheolwyr a staff i oresgyn rhwystrau i weithio hyblyg ac mae'n cynnal grwpiau ffocws gyda'n nyrsys rhyngwladol i gasglu eu profiadau o ymuno â'r bwrdd iechyd.

Mae adroddiadau sicrwydd blynyddol y bwrdd ar lefelau staff nyrsio yn sôn am y pecyn cymorth gweithio hyblyg, ond nid ydynt yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â chadw staff.

Mae'r bwrdd yn cynnig datblygu eich rhaglen eich hun er mwyn i HCSWs ddatblygu eu gyrfaedd drwy gymryd gradd ran-amser i'w galluogi i ddod yn nyrsys cofrestredig. Ceir hefyd gyfleoedd i HCSWs ymgymryd â chysiau seiliedig ar waith ar lefel 2 a lefel 3, gan eu galluogi i ddysgu wrth weithio.

Lansiodd y bwrdd iechyd fframwaith strategol nyrsio a bydwreigiaeth 5 mlynedd, "Grymuso i Ofalu", ym mis Tachwedd 2021. Nid oes unrhyw wybodaeth gyhoeddus am ddwy flynedd gyntaf y fframwaith na'i effeithiau, os o gwbl, ar gadw a recriwtio staff nyrsio.

Mae nifer o ddogfennau'r bwrdd yn cyfeirio mewn sawl ffordd at "gynllun sefydlogi'r gweithlu nyrsio", "rhaglen sefydlogi nyrsys", a phethau tebyg.<sup>50</sup> Mae cyflwyniad bwrdd iechyd i Lywodraeth Cymru yn crybwyll "fel rhan o'r rhaglen sefydlogi nyrsys, mae Glangwili wedi gweld gwelliant sylweddol o fewn wardiau 25A a 25B [...] fodd bynnag, mae'r gwariant wedi cynyddu'n sylweddol gan fod dibyniaeth o hyd ar asiantaeth i gyrraedd y cyfraddau llenwi staff nyrsio ar y wardiau priodol".<sup>51</sup> Mae cynllun blynyddol y bwrdd iechyd ar gyfer 2023-24 yn cyfeirio at gynllun i gyflwyno'r rhaglen sefydlogi nyrsys, gan ddechrau gydag Ysbyty Llwynhelyg.<sup>52</sup>

<sup>50</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Cyflwyno gwybodaeth atodol i Lywodraeth Cymru am Gynllun Blynyddol 2023/24*. <https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/extraordinary-board-may-31-2023/item-2-submission-of-supplementary-information-to-welsh-government-on-the-2023-24-annual-plan/>

<sup>51</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Cyflwyno gwybodaeth atodol i Lywodraeth Cymru am Gynllun Blynyddol 2023/24*. <https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/extraordinary-board-may-31-2023/item-2-submission-of-supplementary-information-to-welsh-government-on-the-2023-24-annual-plan/>

<sup>52</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Cynllun Blynyddol 2023/24*. <https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/board-agenda-and-papers-30-march-2023/agenda-and-papers-30-march-2023/item-32-appendix-2-hywel-dda-annual-plan-2023-24pdf/>

Er hyn, nid oes rhagor o wybodaeth am gynnwys y cynllun/rhaglen. Byddai'n fuddiol o ran eglurder pe bai'r bwrdd iechyd yn nodi'r hyn y mae cynllun/rhaglen sefydlogi'r gweithlu nyrsio yn ei olygu, a yw'n cael ei ariannu, a sut mae'n effeithio ar y proffesiwn nyrsio.

## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn un o'r ychydig fyrddau iechyd sy'n rhoi manylion am sut y mae'n cyflawni Adran 25A ac yn paratoi ar gyfer ymestyn Adran 25B i wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol, ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal.

Mae papurau'r bwrdd iechyd yn nodi bod trafodaethau parhaus ynghylch adlinio cyllidebau er mwyn sicrhau bod y staff nyrsio yn briodol i fodloni'r lefel bresennol o weithgarwch ac aciwtedd ar gyfer Gwasanaethau Adrannau Achosion Brys a 'Drws Ffrynt', fel y'u cwmpasir gan Adran 25A.<sup>53</sup> Yn ogystal, bu adolygiad cynhwysfawr o lefelau staffio gofal critigol i adlewyrchu safonau'r Canllawiau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gofal Dwys (GPICS). Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r bwrdd iechyd wrthi'n trafod yr addasiadau i'r cyllid a'r gweithlu sydd eu hangen i gyrraedd y safonau.

Mae'r bwrdd yn cynnal adolygiadau staffio yn amlach na'r hyn sy'n ofynnol er mwyn gallu cyfrifo ei lefelau staffio ar wardiau Adran 25B mewn ffordd fwy ymatebol. Er mwyn paratoi ar gyfer ymestyn Adran 25B i wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl, mae'r bwrdd hefyd wedi cwblhau asesiad o lefelau staff nyrsio yn y wardiau hynny yn unol ag egwyddorion Staffio Nyrsys Iechyd Meddwl Dros Dro GIG Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r canfyddiadau gyda Chyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf y bwrdd, ac nid ydynt wedi'u cyhoeddi eto. Mae'r bwrdd wedi cynnal asesiad tebyg mewn ymweliadau iechyd, ac mae un ar y gweill yn ei wasanaethau nyrsys ardal.

Er bod y bwrdd iechyd wedi nodi nifer cynyddol o ddigwyddiadau difrifol ar wardiau Adran 25B ers 2018, yn enwedig cwynion ynghylch gofal nyrsio, mae'r nifer sy'n ymwneud â methiant i gynnal y lefel staff nyrsio wedi aros yn isel iawn. Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau "byth" o ran meddyginiaeth eu priodoli i fethiant i gynnal lefelau staff nyrsio, ac yn 2022-23 ni nododd y bwrdd unrhyw ddigwyddiadau o gwbl lle roedd methiant i gynnal lefelau staff nyrsio wedi chwarae rhan.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi dechrau adrodd ar wybodaeth am sifftiau drwy "SafeCare", y feddalwedd staffio a dadansoddi sifftiau dyddiol y mae pob bwrdd iechyd wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith. Cyflwynwyd hyn ar gyfer wardiau Adran 25B.

O'r data a gasglwyd ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion, mae'n amlwg bod her i gynnal lefelau staff nyrsio ar wardiau Adran 25B. Allan o 23,920 o sifftiau, cyflawnwyd rhestrau dyletswyddau arfaethedig ac roedd lefelau staffio yn briodol lai na hanner yr amser (42.47%). Ar 42.45% o sifftiau, ni chyflawnwyd rhestrau dyletswyddau arfaethedig, ac nid oedd lefelau staffio yn briodol. Roedd cydymffurfiaeth â gofynion staffio yn well ar wardiau pediatrig, lle gwelodd 69.39% o sifftiau lefelau staffio priodol gyda rhestrau dyletswyddau arfaethedig yn cael eu bodloni.

---

<sup>53</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar Lefelau Staff Nyrsio*. <https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/item-6-1-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-report-2022-23-pdf/>

## Risg amnewid rolau

Er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cyflwyno rolau nyrsio newydd, nid yw'r bwrdd yn gwneud sylwadau uniongyrchol ar amnewid rolau.

Yn 2022, cyflwynodd rhai timau rolau Ymarferwyr Cynorthwyol band 4, yn ogystal â phroffesiynau eraill nad ydynt yn nyrsio, i gefnogi nyrsys cofrestredig. Mae'r bwrdd wedi amlygu brwdfrydedd y timau ynghylch y rolau newydd hyn a'u bod bellach yn archwilio rolau eraill, megis technegwyr fferyllfa, rolau cadw tŷ, rolau caffael, a rolau datblygiad proffesiynol, fel rhan o fodel "tîm o amgylch y claf" y bwrdd.

## Hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Yn anarferol, o gymharu â byrddau iechyd eraill, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi sefydlu prosesau i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio. Cynhaliodd asesiad ym mis Mawrth 2023 a chanfuwyd bod gan 95% o'i wardiau lle roedd Adran 25B yn berthnasol wybodaeth gyfredol i gleifion wedi'i harddangos y tu allan i'r fynedfa. Yn dilyn yr asesiad, darparwyd gweddill y wybodaeth i'r ward hynny nad oedd yn arddangos y wybodaeth ddiweddaraf.<sup>54</sup>

Ym mis Medi 2023, cynhaliodd aelodau RCN arolwg o saith ward Adran 25B ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chafwyd bod yr holl wybodaeth am lefelau staff nyrsio ar gael i'r cyhoedd ac yn gyfredol, gan gynnwys taflenni Cwestiynau Cyffredin yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

---

<sup>54</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar Lefelau Staff Nyrsio*. <https://hduhb.nhs.wales/about-us/your-health-board/board-meetings-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/board-agenda-and-papers-25-may-2023/item-6-1-nurse-staffing-levels-wales-act-annual-report-2022-23-pdf/>

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

### Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

1. Pa gamau ydych yn eu cymryd i gadw nyrsys ym Mhowys a pha effeithiau y mae'r camau hyn yn eu cael?
2. A ydych wedi sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect gyda Phrifysgol Bangor ac AaGIC i wella cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio ym Mhowys?
3. A ydych chi wedi gwerthuso'r "Rhaglen Darpar Nyrsys"? A ellid mabwysiadu dysgu ledled Cymru?

### Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o brofi a threialu Offeryn Hunanasesu Cadw Nyrsys AaGIC. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio wedi cynrychioli Powys, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Grŵp Nyrsio, ar Grŵp Cadw Gweithlu Nyrsio Cymru Gyfan.

Mae cymorth gyrfa a chynnydd ar gael i HCSWs sy'n ymuno â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy ddechrau ar lefel mynediad drwy'r academi prentisiaethau, neu drwy ymuno â'r bwrdd iechyd ar fand 2-4 a manteisio ar gymorth i gwblhau rhaglen Gynefino Glinigol achrededig. Ar ôl hynny, gall HCSWs ymgymryd â chymwysterau ar Lefelau 2, 3 neu 4, yn dibynnu ar anghenion datblygu. Yna, mae Rhaglen Darpar Nyrsys y bwrdd yn cynnig llwybr rhan-amser, hyblyg i HCSWs sydd am ddod yn nyrsys cofrestredig. Mae'r rhaglen yn cynnwys llwybr mewnol ar gyfer gweithwyr HCSW presennol y bwrdd iechyd, a llwybr allanol sydd ar gael yn dibynnu ar gyllid ychwanegol. Menter leol ragorol yw hon a dylid cefnogi'r llwybr allanol gyda chyllid Llywodraeth Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd yn gweithio ar brosiect newydd gydag AaGIC a Phrifysgol Bangor er mwyn galluogi nyrsys dan hyfforddiant i ymgymryd â rhaglenni gradd nyrsio amser llawn wrth gael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r prosiect hwn wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd ac mae'n dibynnu ar gyllid.



## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Nid oes gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys unrhyw wardiau sy'n dod o dan Adran 25B o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*. Serch hynny, mae'r bwrdd wedi addasu nifer o egwyddorion allweddol Adran 25B yn wirfoddol. Mae Adran 25A yn berthnasol i bob ward ym Mhowys.

Mae'r bwrdd wedi cyflwyno person dynodedig sy'n gyfrifol am lefelau staff nyrsio, gan adlewyrchu'r "person dynodedig" i gyfrifo lefelau staff nyrsio ar wardiau Adran 25B. Mae ei Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bwriadu cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a chynnal adolygiadau ddwywaith y flwyddyn o'i nifer gofynnol o nyrsys i'w hadrodd i'r tîm rheoli gweithredol. Cwblhawyd adolygiad o'r fath ym mis Hydref 2022 ac mae un arall ar y gweill ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae'r bwrdd hefyd yn bwriadu cyflwyno'r feddalwedd Allocate SafeCare yn ei wardiau cleifion mewnol i oedolion, gyda'r bwriad o'i ymestyn o bosibl i'r wardiau iechyd meddwl oedolion hyn.

Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn parhau i gael trafferth gyda diffyg staff nyrsio cofrestredig. Mae ei gofrestr risg gorfforaethol wedi adlewyrchu hyn ers 2017<sup>55</sup> ac fe'i diweddarwyd diwethaf ym mis Medi 2022, gan ddangos bod 'methu â chynllunio ar gyfer gweithlu priodol, ei recriwtio a'i gadw yn arwain at anallu i gynnal gwasanaethau o ansawdd uchel'<sup>56</sup> yn destun pryder i'r bwrdd o hyd.

Mae'r gofrestr risgiau'n cyfeirio at nifer "arbennig o heriol" y swyddi gwag nyrsys cofrestredig, gyda chyfradd swyddi gweigion cyffredinol o 31%. Mewn dwy ward gymunedol, mae cyfradd yr unedau gwag o leiaf 48%.<sup>57</sup> Ym mis Gorffennaf 2023, y diffyg nyrsys cofrestredig oedd 119 WTE. Mae'r dangosfwrdd risgiau'n nodi bod 'data rhagamcanion gweithlu diweddar yn dangos darlun cyffredinol sy'n gwaethygu ar gyfer lefelau swyddi gweigion ein gweithlu dros y 10 mlynedd nesaf', sy'n destun pryder o ran darparu gofal diogel ac effeithiol, a chaniatáu amser i nyrsys ddarparu gofal mewn modd sensitif.<sup>58</sup>

## Risg amnewid rolau

O ran y risg amnewid rolau, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ond yn dweud ei fod wrthi'n gweithio gyda Phrif Swyddog Nyrsio Cymru i ddeall yr hyn y gallai rolau clinigol band 4 ei gynnig yn y dyfodol.

<sup>55</sup> Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. (2022). Papurau'r Bwrdd – 27 Gorffennaf 2022. <https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meeting-calendar/meeting-of-the-board-on-27-july-2022/1/>

<sup>56</sup> Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. (2023). Papurau'r Bwrdd – 29 Mawrth 2023. <https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meetings/2023/29-march-2023/agenda-and-papers-pack-2/>

<sup>57</sup> Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. (2023). Papurau'r Bwrdd – 25 Ionawr 2023. <https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meetings/2023/25-january-2023/agenda-and-papers1/>

<sup>58</sup> Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. (2023). Papurau'r Bwrdd – 25 Ionawr 2023. <https://pthb.nhs.wales/about-us/the-board/board-meetings/2023/25-january-2023/agenda-and-papers1/>



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

### Cwestiynau i Aelodau'r Senedd eu gofyn i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

1. A yw'r bwrdd yn cael adroddiad rheolaidd ar gydymffurfiaeth ag Adran 25A o *Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*?
2. I ba raddau y disgwylir i nyrsys cofrestredig a HCSWs ddarparu gwasanaethau glanhau ar y ward?
3. A ydych wedi datblygu unrhyw gamau i gadw staff sy'n benodol i nyrsys cofrestredig? Os felly, beth yw'r camau hynny?
4. Beth yw eich system ar gyfer hysbysu cleifion ac ymwelwyr o lefel y staff nyrsio ar wardiau Adran 25B? A yw effeithlonrwydd y system honno wedi gwella i ymwelwyr ers mis Mai 2023?

### Cynaliadwyedd y gweithlu nyrsio

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe raglen helaeth ar gyfer recriwtio nyrsys o dramor. Cyrhaeddodd y bwrdd darged o 350 o gynigion yn 2022/23 ac mae'n gwneud cynlluniau i recriwtio 350 o nyrsys ychwanegol yn 2023/2024.<sup>59</sup> Mae'r bwrdd yn nodi bod ei recriwtio llwyddiannus o staff parhaol wedi lleihau ei angen am staff dros dro,<sup>60</sup> gan effeithio'n gadarnhaol ar forâl a gofal cleifion.

Mae papurau bwrdd Mai 2023 yn nodi y bydd mwyafrif y 96 o nyrsys a gafodd eu recriwtio rhwng mis Mawrth a mis Mai yn gweithio ar ei wardiau o fis Mehefin, "fel nyrs band 4 i ddechrau".<sup>61</sup> Mae hyn yn destun pryder mawr i'r Coleg Nyrsio Brenhinol, gan y dylai pob nyrs gofrestrredig ymuno â'r gweithlu ar fand 5 Agenda ar gyfer Newid. Os nad yw gweithiwr yn nyrs gofrestrredig, mae'n weithiwr cymorth gofal iechyd. Nid oes y fath beth â "nyrs band 4" na "nyrs anghofrestredig". Mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gywiro'r iaith a ddefnyddir ym mhapurau ei fwrdd ar fyrder er mwyn egluro'r berthynas â diogelwch cleifion.

Mae gan y bwrdd iechyd Arweinydd Datblygu HCSW i gynghori HSCWs ar gyfleoedd datblygu ac addysgol. Mae'r bwrdd yn cynnig cyfleoedd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer dilyniant o fand 2 i fandiau 3 a 4, yn ogystal â chyfleoedd i ddod yn nyrs gofrestrredig.

Mae gan y bwrdd Grŵp Datblygu Recriwtio a Chadw a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu. Mae uwch-nyrsys yn aelodau o'r grŵp. Mae pedair ffrwd waith i wella cyfraddau cadw yn ystod camau cynnar eu datblygiad, gan gynnwys gweithio hyblyg, mentora, a chyfweliadau "meddwl am adael?"

<sup>59</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

<sup>60</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

<sup>61</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

## Cydymffurfiaeth ag Adrannau 25A a 25B

Mae Grŵp Llywio'r Ddeddf Staff Nyrsio Misol y bwrdd yn trafod lefelau staff nyrsio ac asesiadau risg ar draws y bwrdd iechyd, ond mae'r grŵp wrthi'n adolygu ei gylch gorchwyl.

Mae nifer y cwmpadau lle penderfynwyd bod lefelau staff nyrsio wedi cyfrannu atynt wedi gostwng yn sylweddol o 11 yn y cyfnod adrodd cyntaf (2018/2019) i 1 yn y cyfnod adrodd diweddaraf.

## Risg amnewid rolau

Mae papurau'r bwrdd ym mis Mai 2023 yn dangos bod y gwaith o lanhau offer megis gwelyau, matresi a loceri cleifion yn cael ei wneud gan nyrsys cofrestredig ar hyn o bryd. Mae'r bwrdd wedi adolygu galluogi staff glanhau i ymgymryd â'r rôl hon a lleihau'r amser a dreulir gan nyrsys ar lanhau.<sup>62</sup> Mae'n bwriadu cyflwyno'r cynllun hwn ar draws ysbyty Treforys "yn y lle cyntaf", a dylid cyflwyno'r cynllun hwn ar fyrder. Mae'n briodol cynnwys nyrsys cofrestredig neu nyrsys atal a rheoli heintiau arbenigol wrth hyfforddi neu oruchwylio dyletswyddau glanhau. Fodd bynnag, dylid cyflogi staff glanhau arbenigol mewn lleoliadau gofal iechyd i ddarparu gwasanaethau glanhau ac mae'n destun pryder clywed nad yw hyn yn wir.

Mae adroddiad blynyddol *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* Mai 2023 yn crybwyll bod y bwrdd iechyd yn adolygu ei weithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac y bydd yn "datblygu rolau arloesol" i gefnogi'r gwasanaeth ac yn diwallu anghenion ein cleifion.<sup>63</sup> Aiff ymlaen i ddweud, o ganlyniad i swyddi gwag nyrsys cofrestredig (band 5), fod angen "dull gwahanol" i wella'r gweithlu anghofrestredig.<sup>64</sup> Mae papurau'r bwrdd o'r un mis yn ychwanegu bod staff yn "edrych ar rolau a thasgau y gellir eu dirprwyo'n ddiogel i berson anghofrestredig".<sup>65</sup>

Mae'n bwysig bod nyrsys cofrestredig, yn benodol rheolwyr wardiau, yn cael eu cynnwys mewn unrhyw drafodaethau ynghylch pa dasgau y gall nyrs gofrestrredig eu dirprwyo'n 'ddiogel'.

## Hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Mae adroddiad sicrwydd blynyddol diweddaraf y bwrdd iechyd ar gydymffurfio â *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, o fis Ebrill 2022 ymlaen, yn disgrifio proses ar gyfer hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio ar wardiau Adran 25B drwy arddangos poster dwyieithog y tu allan i fynedfa'r ward.<sup>66</sup>

<sup>62</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuwb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

<sup>63</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuwb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

<sup>64</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuwb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

<sup>65</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuwb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>

<sup>66</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. (2023). *Adroddiad sicrwydd blynyddol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* <https://sbuwb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/health-board-may-2023/4-1-nurse-staffing-act-pdf/>



Coleg Nyrsio Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales

### Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw'r sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsio, gan gynrychioli dros 500,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 29,500 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae RCN yn sefydliad ledled y DU, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae RCN yn cynrychioli nyrsys a gwasanaethau nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llywio polisi iechyd a gofal.

Anfonwch neges e-bost i [Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk](mailto:Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk) i gael rhagor o wybodaeth.